**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Rhagfyr 2014

**Aelod Cabinet: Cyng John Wyn Williams**

**Pwnc: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – y Cynllun Adnau**

**Swyddog cyswllt: Iwan T Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol**
**Aled Davies, Pennaeth yr Adran Rheoleiddio**

---

## Y penderfyniad a geisir

*Gofynnir am sylwadau'r Cabinet am y Cynllun Adnau drafft i'w hystyried gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wrth iddo ddod i benderfyniad*

---

## Barn yr aelod lleol

Mae cyfres o seminarau i Aelodau wedi cael eu cynnal ers cychwyn y broses o baratoi'r Cynllun er mwyn briffio'r Aelodau a rhoi cyfle i godi materion. Fe wnaeth yr un diweddaraf ddisgrifio cynnwys y Cynllun Adnau a'r prif negeseuon, y camau statudol a'r amserlen gyfredol. Bydd sesiwn galw i mewn yn cael ei drefnu i friffio'r Aelodau cyn cychwyny cyfnod ymgynghori cyhoeddus am y Cynllun Adnau.

---

## Cyflwyniad

1. Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Rhagnodir ffurf a chynnwys y CDLl gan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, a nodir y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth ei baratoi. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi penderfynu cydweithio i baratoi CDLl ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd (ac eithrio Parc Cenedlaethol Eryri) (Ardal y Cynllun).

2. Bydd y Cabinet yn cofio fod Hoff Strategaeth y CDLl ar y Cyd wedi ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Mai a Mehefin 2013. Mae'r cam nesaf yn cynnwys paratoi a chyhoeddi fersiwn Adnau o'r CDLl ar y Cyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Y Cynllun Adnau sydd angen sylw'r Cabinet heddiw.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

3. Mae penderfyniad wedi cael ei wneud i ymgynghori gyda'r Cabinet cyn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i symud i'r cam ymgynghoriad cyhoeddus statudol o 6 wythnos. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle ffurfiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn natblygiad gofodol yr ardal dros gyfnod 15 mlynedd y Cynllun, wneud sylwadau ar y strategaeth yn y Cynllun Adnau a'i bolisïau a'i gynigion.

**Ystyriaethau perthnasol**

4. Mae'r Cynllun Adnau'n darparu fframwaith cynllunio defnydd tir cynaliadwy i hyrwyddo ac arwain gofynion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddau Awdurdod yn ystod y cyfnod o bymtheg mlynedd rhwng 2011 a 2026. Yn dilyn ei fabwysiadu (a ragwelir bydd yn digwydd yn Rhagfyr 2016), bydd y Cynllun yn cael ei ddefnyddio i arwain a rheoli datblygiad a buddsoddiad yn ardal y Cynllun, gan ddarparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a phriodol ar geisiadau cynllunio. Fe fydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol pan gaiff ei fabwysiadu.

5. Mae'r Cynllun Adnau mewn tri rhan – y Datganiad Ysgrifenedig a'r Mapiau Cynigion a'r Mapiau Cyfyngiadau. Rhennir y Datganiad Ysgrifenedig i wyth pennod sy'n cyflwyno'r cyd destun cyfredol (Pennod 3 a 4), y weledigaeth a'r amcanion strategol (Pennod 5), y Strategaeth (Pennod 6), Polisïau Strategol a Manwl (Pennod 7), a fframwaith fonitro (Pennod 8).

6. Mae Atodiad 1 yn crynhoi beth mae'r Cynllun Adnau'n ei olygu i Wynedd. Gellir gweld y Datganiad Ysgrifenedig yn Atodiad 2 a'r

mapiau cynigion ar gyfer yr aneddleoedd unigol yn Atodiad 3A – 3Ch.

7. Mae datblygiad y Cynllun Adnau wedi cael ei ddylanwadu gan gasgliadau Asesiadau amrywiol:

- Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol);
- Asesiad Effaith Ieithyddol
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Asesiad Cydraddoldeb;
- Asesiad Effaith Iechyd

8. Caiff adroddiadau llawn am yr asesiadau yma eu cyhoeddi yn Llyfrgell y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau adeg yr ymgynghori cyhoeddus. Yn y cyfamser mae Atodiad 4 i'r adroddiad yma'n cynnwys crynodeb o'r Asesiadau. Bydd y Llyfrgell hefyd yn cynnwys Papurau Testun a Phapurau Cefndir a fydd yn cofnodi'r dystiolaeth fanwl am feysydd amrywiol.

**Camau nesaf ac amserlen**

9. Pan fydd y Cynghorau yn ymgynghori ar y Cynllun Adnau, rhaid iddynt hysbysebu'r ymgynghoriad yn unol â Rheoliadau'r CDLl a hysbysu'r partïon hynny a nodwyd yn y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus (gan gynnwys ymgynghorai statudol), a chaniatáu chwech wythnos i wneud sylwadau. Anelir i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2015. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfathrebu'n ysgrifenedig gyda'r holl unigolion a'r sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghronfa ddata'r CDLl ar y Cyd, gan osod copïau o'r Cynllun Adnau ar wefan y Cyngor ac yn y lleoliadau Adnau, a chyhoeddi datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn ogystal, bwriedir darparu crynodeb o brif negeseuon y Cynllun a chynnal nifer o arddangosfeydd wedi'u staffio mewn lleoliadau strategol ar draws ardal y Cynllun.

10. Bydd y rhai sy'n gwneud sylwadau ar y Cynllun Adnau yn cael eu hannog i wneud hynny ar ffurflen safonol, gan nodi'n glir unrhyw sylwadau cefnogol, wrthwynebus neu gyffredinol. Bydd hefyd yn

ofynnol i wrthwynebwyr ddangos pa brawf (brofion) o gadernid y Cynllun yr ystyrir sy'n methu, a nodi pa newidiadau i'r Cynllun a ddymunir. Bydd y wybodaeth hon yn llywio ystyriaeth yr Arolygydd ynglŷn â chadernid y CDLl ar y Cyd, gan gynnwys y goblygiadau i'r arfarniad o gynaliadwyedd. Bydd fersiwn ryngweithiol ar-lein o'r ffurflen safonol ar gael i annog cyflwyno unrhyw sylwadau ategol neu wrthwynebiadau'n uniongyrchol i'r gofrestr o sylwadau neu wrthwynebiadau.

11. Rhaid i'r holl sylwadau a dderbynnir gan y Cyngor sy'n ceisio newid y Cynllun Adnau drwy ychwanegu safle newydd, neu drwy newid neu ddileu safle arfaethedig, gael eu hysbysebu gan y Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori o chwech wythnos, gan ganiatáu cyfnod pellach o chwech wythnos i wneud sylwadau arnynt. Rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad ar y cam "safleoedd amgen" hwn yn cael ei wneud yn ystod 2015, gyda'r dyddiad penodol yn cael ei gadarnhau yn nes at yr amser.

12. Os yw dadansoddiad o'r sylwadau am y Cynllun Adnau a'r dystiolaeth i gefnogi'r sylwadau yn rhai grymus fe all y Cyngor awgrymu newidiadau penodol i'r Cynllun cyn iddo fynd i'r Ymchwiliad Cyhoeddus.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r cyfrifoldeb am gytuno y drafft adnau CDLl ar gyfer cyhoeddi yn nwylo'r Cyd Bwyllgor Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r adroddiad yma yn rhoi cyfle i'r Cabinet roi sylwadau ar y drafft i'w hystyried gan y Cyd Bwyllgor wrth dodd i'w bednerfyniad.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Cadarnhaf fod gan y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gronfa a chyllideb addas mewn lle ar gyfer gweithredu ac ymgynghori'n briodol.

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cynllun Adnau drafft – beth olygir i Wynedd |
| Atodiad 2: | Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau drafft |
| Atodiad 3A: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol) |
| Atodiad 3B: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Canolfannau Gwasanaeth Lleol a Phentrefi Gwasanaeth) |
| Atodiad 3C: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Pentrefi Lleol/ Arfordirol/ Gwledig) |
| Atodiad 3Ch: | Mapiau cynigion y Cynllun Adnau drafft (Clystyrau a safleoedd du allan i aneddleoedd) |
| Atodiad 4: | Crynodeb o asesiadau amrywiol |